



At: Penaethiaid - pob ysgol a lleoliad

9 Gorffennaf 2021

Annwyl Bennaeth

Cyn i chi ddechrau ar seibiant haeddiannol yr haf hwn rwyf am fanteisio ar y cyfle i fynegi fy niolchgarwch am eich holl waith caled a'ch ymdrech dros y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Rwy'n gobeithio y bydd yr egwyl yn cynnig cyfle i chi, a'ch staff, edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf gyda balchder aruthrol – rydych wedi dangos penderfyniad a gwydnwch aruthrol wrth gefnogi dysgu a chadw lleoliadau addysg mor ddiogel o ran COVID-19 â phosibl. Diolch yn fawr iawn.

Yr wyf wedi treulio'r tymor hwn yn gwranddo arnoch. Mae'n amlwg bod lles a dilyniant dysgwyr wrth wraidd popeth a wnewch. Yr wyf yn benderfynol bod y pwyslais ar les a hyblygrwydd a ddangoswyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn seiliedig ar gyflwyno ein cwricwlwm newydd ac yn cyd-fynd yn agos ag ef.

Dyma pam rydw i wedi cadarnhau'r wythnos hon y bydd Cwricwlwm i Gymru yn parhau i gael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir, a lleoliadau meithrin nas gynhelir o Fedi 2022.

Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i Flwyddyn 7 yn medru gwneud hynny, ond ni fydd hynny yn ofynnol tan 2023, gyda chyflwyno i Flwyddyn 7 ac 8 ar y cyd. I'r rheini sydd am gychwyn cyflwyno'r cwricwlwm o fis Medi 2022, fe fyddwn yn eich annog i wneud hynny.

Gellir darllen neu wyllo fy Natganiad Llafar i'r Senedd yma: [Datganiad Llafar: Diwygio'r Cwricwlwm—Y Camau Nesaf \(6 Gorffennaf 2021\)](#)

Cynlluniau ar gyfer mis Medi

Erbyn diwedd mis Medi bydd pawb sy'n gweithio yn ein system addysg wedi cael cynnig dau frechiad, gan ddarparu mwy o amddiffyniad i'n gweithlu addysg ac rwy'n parhau i annog unrhyw un nad yw wedi derbyn eu brechlyn eto i fanteisio ar y cynnig hwn. Mae corff cynyddol o dystiolaeth hefyd yn dangos bod plant a phobl ifanc mewn mwy o niwed o golli ysgol nag o COVID.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn cyhoeddi *Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 Lleol* a fydd ar gael o ddechrau tymor yr hydref, i chi ymgorffori yn eich gweithrediadau yn ystod yr wythnosau sy'n dilyn. Gyda chefnogaeth swyddogion iechyd y cyhoedd a'ch awdurdod lleol bydd y fframwaith yn eich galluogi i deilwra rhai o'r ymyriadau i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol i sicrhau bod ymyriadau'n briodol i'ch amgylchiadau.

Yn y cyfamser rwyf am fod mor eglur ag y gallaf fod ar hyn o bryd ynglŷn â'r sail y dylech gynllunio ar gyfer mis Medi i leihau'r tarfu arnoch chi a'ch dysgwyr:


- Ni fyddwn bellach yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb yn rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth
- Ni fydd grwpiau cyswllt/swigod yn cael eu hargymhell mwyach – bydd Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sydd wedi profi'n gadarnhaol yn yr un modd ag y byddent ar gyfer unrhyw brofion unigol eraill cadarnhaol y tu allan i'r ysgol/lleoliad. Fodd bynnag, gall POD gysylltu â'ch ysgol i ategu'r wybodaeth y maent wedi'i gasglu gyda gwybodaeth bellach sydd ar gael i chi.
- Bydd amseroedd sesiynau arferol yn ailddechrau.
- Dylid annog plant ysgol uwchradd a'r gweithlu addysg i brofi cyn dychwelyd i'r ysgol.

Heddiw, rydym wedi cyhoeddi [hysbysiad cyngor ar y newidiadau allweddol o fis Medi ynghyd â Chanllawiau Gweithredol wedi'u diweddarau](#) sy'n rhoi rhagor o fanylion am yr holl elfennau a nodir yn y llythyr hwn, gan gynnwys eglurder pellach ar y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r broses POD o fis Medi.

Efallai y bydd angen cyhoeddi diweddariadau pellach os bydd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn ystod gwyliau'r haf. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o roi'r amser sydd ei angen arnoch i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i fesurau lliniaru ar ddechrau'r tymor.

Hoffwn orffen drwy ddiolch i chi eilwaith am eich gwaith caled aruthrol dros y cyfnod mwyaf heriol. Aethom i mewn i'r pandemig hwn gyda'n gilydd, byddwn yn dod allan ohono gyda'n gilydd, yn gryfach.

Diolch o galon



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language